Ordnance Survey®

Arolwg Ordnans®

# Welsh Annual Review
# Adolygiad Blynyddol Cymru

## 2003–04



# Ordnance Survey activities in Wales 2003–04

# Gweithgareddau'r Arolwg Ordnans yng Nghymru 2003–04



I am very pleased to present Ordnance Survey's annual review for Wales, where investment in geographical information (GI) is bringing real benefits to business, government and citizens alike. This report highlights just a few of the many projects that are using our data to increase efficiency, improve public services and modernise government. More detailed coverage of our activities across the whole of Great Britain can be found in the enclosed CD of our Annual Report and Accounts.

Ordnance Survey offers a growing choice of innovative data products to meet the needs of our customers and partners. This includes OS MasterMap® – the latest generation of sophisticated and highly-detailed geographic data – which has been particularly well-received in Wales.

We are committed to providing our customers with exceptional data quality, and our investment in the latest GPS technology not only enables our dedicated field staff to work more efficiently and with even greater accuracy but also to collect different types of information to further enhance our maps and geographical data.

The past year has been particularly significant for Ordnance Survey, marking a profitable end to our initial five-year period as a successful and thriving Trading Fund. The continuation of this status ensures we are able to drive forward further major investment in our operations, allowing us to develop our data and introduce new ways of supplying it, so providing even greater benefits to our customers.

Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno adolygiad blynyddol yr Arolwg Ordnans i Gymru, lle mae buddsoddi mewn gwybodaeth ddaearyddol (GI) yn dod â budd go iawn i ran busnesau, llywodraeth a dinasyddion fel ei gilydd. Mae'r adroddiad hwn yn dwyn sylw at rai yn unig o'r llu o brosiectau sy'n defnyddio ein data i gynyddu effeithlonrwydd, i wella gwasanaethau cyhoeddus ac i foderneiddio llywodraeth. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth fanylach am ein gweithgareddau ledled Prydain Fawr yn y CD amgaeedig sy'n cynnwys ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon.

Mae'r Arolwg Ordnans yn cynnig dewis cynyddol o gynhyrchion data arloesol i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid a'n partneriaid. Mae hyn yn cynnwys OS MasterMap® – y genhedlaeth ddiweddaraf o ddata daearyddol soffistigedig a thra manwl – sydd wedi cael croeso arbennig o gynnes yng Nghymru.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu data o ansawdd eithriadol i'n cwsmeriaid, ac mae ein buddsoddiad yn y dechnoleg GPS ddiweddaraf yn galluogi ein gweithwyr maes i weithio'n fwy effeithlon ac yn fwy manwl-gywir, yn ogystal â chasglu gwahanol fathau o wybodaeth i wneud ein mapiau a'n data daearyddol yn well fyth.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un arbennig o bwysig i'r Arolwg Ordnans, gan nodi diwedd proffidiol i'n cyfnod pum mlynedd cyntaf fel Cronfa Fasnachu lwyddiannus a ffyniannus. Mae parhad y statws hwn yn sicrhau ein bod yn gallu hyrwyddo mwy o fuddsoddiad sylweddol yn ein gweithredoedd, gan ein galluogi i ddatblygu ein data a chyflwyno ffyrdd newydd o'u darparu, gan gynnig hyd yn oed mwy o fuddiannau i'n cwsmeriaid.

## Underpinning innovation

Technology is not only transforming how we collect and deliver GI but also the way in which it is used. During the past year Wales has continued to be at the forefront of this revolution through the development of innovative and practical applications, such as the award-winning Wales Information System for Agricultural and Rural Data (WISARD).

The scheme, underpinned by OS MasterMap, was developed in conjunction with the ILR consortium of Infoterra and partners Landmark Government and RMSI in just seven months. It builds on the already successful land-based register of farms developed by staff in the Welsh Assembly Government's Department of Environment, Planning and Countryside (DEPC) to help reduce the time taken to pay European subsidies.

WISARD takes this one step further by electronically transferring data to the editing team to speed up the management of the thousands of changes requested every year. As a result more than 16 000 farmers are benefiting from an enhanced and more accurate service that has won considerable praise from customers and industry experts alike.

## Bod yn sylfaen i arloesedd

Mae technoleg yn golygu ein bod yn gallu newid sut byddwn yn casglu ac yn cyflenwi GI yn ogystal â sut bydd yn cael ei defnyddio. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Cymru wedi parhau i fod ar flaen y gad yn y chwyldro hwn trwy ddatblygu cymwysiadau arloesol ac ymarferol, fel System Wybodaeth Cymru ar gyfer Data Amaethyddol a Gwledig (WISARD) sydd wedi ennill gwobrau.

Mae OS MasterMap yn sylfaen i'r cynllun, ac fe'i datblygwyd mewn saith mis yn unig, ar y cyd â chonsortiwm ILR sy'n cynnwys Infoterra a'i bartneriaid Landmark Government ac RMSI. Mae'n adeiladu ar y gofrestr gwaith ar y tir lwyddiannus o ffermydd, sef cofrestr sydd wedi'i datblygu gan staff yn Adran Amgylchedd Cynllunio a Chefn Gwlad (ACC) Llywodraeth Cynulliad Cymru i gwtogi ar yr amser mae'n ei gymryd i dalu cymorthdaliadau Ewropeaidd.

Mae WISARD yn mynd â hyn un cam ymhellach trwy drosglwyddo'r data yn electronig i'r tîm golygu i gyflymu rheolaeth ar y miloedd o newidiadau y gofynnir amdanynt bob blwyddyn. O ganlyniad, mae mwy na 16 000 o ffermwyr yn cael budd o wasanaeth gwell a mwy manwl-gywir sydd wedi ennill clod sylweddol oddi wrth gwsmeriaid ac arbenigwyr yn y diwydiant fel ei gilydd.



© Photolibrary Wales

The Welsh Development Agency (WDA) is using OS MasterMap in its flagship regeneration project – SA1 Swansea Waterfront. The project aims to build upon Swansea's growing popularity whilst maintaining a strong sense of community.

Mae Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) yn defnyddio OS MasterMap yn ei brosiect adfywio blaenllaw – SA1 Glannau Abertawe. Nod y prosiect yw adeiladu ar boblogrwydd cynyddol Abertawe, ac ar yr un pryd cynnal ymdeimlad cryf o gymuned.



## Enhancing public services

The growth in GI use by the central government sector in Wales has been especially encouraging. Central government bodies listed in the Civil Service Yearbook can have access to a wide range of digital products, including OS MasterMap data, through our Pan-government agreement. In addition to the Welsh Assembly Government itself, signatories include the Environment Agency, the Welsh Development Agency and the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales.

Data supplied under the agreement is enabling the Countryside Council for Wales (CCW) to map out open access land for the whole of Wales using both OS MasterMap and Land-Line® data to meet the spring 2005 completion target. The Pan-government agreement also gives the Welsh Cancer Intelligence and Surveillance Unit access to better GI for modelling expected cancer frequencies in specific areas, to aid analysis of potential causes. It will also enable the National Assembly for Wales to underpin its proposed new corporate GI infrastructure with OS MasterMap.

## Gwella gwasanaethau cyhoeddus

Mae'r twf yn y GI y mae'r sector llywodraeth ganolog yng Nghymru yn ei defnyddio wedi bod yn arbennig o galonogol. Mae cyrff llywodraeth ganolog a restrir yn y Blwyddlyfr Gwasanaeth Sifil yn gallu manteisio ar amrywiaeth eang o gynhyrchion digidol, gan gynnwys data OS MasterMap, trwy ein cytundeb llywodraeth gyfan. Yn ogystal â Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun, ymhlith y rhai sydd wedi llofnodi mae Asiantaeth yr Amgylchedd, Awdurdod Datblygu Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Mae data a ddarperir dan y cytundeb hwn yn galluogi Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) i fapio tir mynediad agored yng Nghymru gyfan, gan ddefnyddio data OS MasterMap a Land-Line® er mwyn cwrdd â'r targed cwblhau, sef gwanwyn 2005. Mae'r cytundeb llywodraeth gyfan hefyd yn golygu bod gwell GI ar gael i Uned Arolygiaeth a Gwybodaeth Cancr Cymru i fodelu amlderau disgwyliedig cancr mewn ardaloedd penodol, er mwyn helpu i ddadansoddi achosion posibl. Bydd hefyd yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddefnyddio OS MasterMap yn sylfaen i'w hisadeiledd GI gorfforaethol arfaethedig.

The response to OS MasterMap in Wales has been particularly impressive, with 20 local authorities, two national parks, three police forces and two fire and rescue services already taking the data. More than 70 delegates attended our technical seminar in Cardiff to share their experiences of implementing the data and exchanging ideas for gaining maximum benefit from its use. Speakers included representatives from South Wales Fire and Rescue Service, who are using a range of Ordnance Survey products in a Mobile Data Project Trial, which focuses on saving time and, ultimately, lives when responding to emergencies.

Fire crews receive relevant and accurate information in-cab whilst on route to the emergency. Using a Vodafone® General Packet Radio System (GPRS) they are able to access data from their operational information system, which is then referenced against OS MasterMap on the in-cab system. The system is currently on trial in two vehicles covering different areas and, upon its completion, it is hoped to install the system in all front-line appliances.

Mae'r ymateb i OS MasterMap yng Nghymru wedi bod yn nodedig tu hwnt, wrth i 20 o awdurdodau lleol, dau barc cenedlaethol, tri heddlu a dau wasanaeth tân ac achub eisoes ddefnyddio'r data. Mynychodd mwy na 70 o gynrychiolwyr ein seminar dechnegol yng Nghaerdydd i rannu eu profiadau o roi'r data ar waith a chyfnewid syniadau i gael y budd mwyaf o'u defnyddio. Ymhlith y siaradwyr roedd cynrychiolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, sy'n defnyddio amrywiaeth o gynhyrchion yr Arolwg Ordnans mewn Prosiect Arbrofol Data Symudol, sy'n canolbwyntio ar arbed amser ac, yn y pen draw, ar achub bywydau wrth ymateb i argyfyngau.

Bydd criwiau tân yn derbyn gwybodaeth berthnasol a manwl-gywir tra eu bod yn y caban ar y ffordd i'r argyfwng. Gan ddefnyddio System Radio Paced Cyffredinol (GPRS) Vodafone® maent yn gallu cyrchu data o'u system wybodaeth weithredol, a defnyddio'r wybodaeth i gyfeirio at OS MasterMap ar y system yn y caban. Ar hyn o bryd mae'r system ar brawf mewn dau gerbyd sy'n cwmpasu gwahanol ardaloedd a, phan fydd y prawf wedi'i gwblhau, y gobaith yw sefydlu'r system yn holl beiriannau'r rheng flaen.

Photograph/Llun: South Wales Police/Heddlu De Cymru





## Supporting Education

Our commitment to promoting the use of mapping is demonstrated by our popular Free maps for 11-year-olds initiative. Around 42 000 children at 270 Welsh schools benefited from the 2003 scheme and we recently announced our intention to run it for a third year. We have also continued to develop our free online educational resources this year, including a Welsh version of the Homework Help section in MapZone® – our interactive web site for children. Set in a youngster's bedroom, it provides fully animated assistance on geography activities for pupils aged 11 to 14.

## Cefnogi Addysg

Mae ein menter boblogaidd Mapiau rhad ac am ddim i ddisgyblion 11 oed yn dangos ein hymrwymiad i hybu'r defnydd o fapiau. Cafodd oddeutu 42 000 o blant mewn 270 o ysgolion yng Nghymru fudd o gynllun 2003, ac yn ddiweddar gwnaethom gyhoeddi ein bwriad i gynnal y fenter am drydedd flwyddyn. Rydym ni hefyd wedi parhau i ddatblygu ein hadnoddau addysgol rhad ac am ddim ar-lein eleni, gan gynnwys fersiwn Cymraeg o adran Help Gwaith Cartref MapZone® – ein gwefan ryngweithiol i blant. Wedi'i leoli mewn ystafell wely rhywun ifanc, mae'n darparu cymorth wedi'i animeiddio'n llwyr ar gyfer gweithgareddau daearyddiaeth i ddisgyblion rhwng 11 a 14 oed.




## Providing choice and accessibility

We believe that Welsh speaking people should be able to receive a full range of our services in Welsh. Our dedicated Welsh Helpline has fluent Welsh-speaking staff and gives real choice to customers in deciding which language to use when contacting us.

We were delighted to welcome Minister for Culture, Welsh Language and Sport for Wales, Alun Pugh AM (pictured above), to launch our new Welsh web site at the Royal Welsh Show in July 2003. The web site – www.ordnancesurvey.co.uk/cymraeg – allows Welsh speakers to download mapping extracts for free as well as to view and buy maps online. Work continues on further enhancements to the site, which has seen a dramatic increase in the number of visits since its launch.

## Darparu dewis a hygyrchedd

Rydym o'r farn y dylai pobl sy'n siarad Cymraeg allu derbyn amrediad llawn ein gwasanaethau yn Gymraeg. Mae gan ein Llinell Gymorth staff sy'n siarad Cymraeg, ac mae'n rhoi dewis go iawn i gwsmeriaid wrth benderfynu pa iaith i'w defnyddio wrth gysylltu â ni.

Roeddem wrth ein bodd yn croesawu'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg, Alun Pugh AC (llun uchod), i lansio ein gwefan Gymraeg newydd yn Sioe Frenhinol Cymru fis Gorffennaf 2003. Mae'r wefan – www.ordnancesurvey.co.uk/cymraeg – yn caniatáu i siaradwyr Cymraeg lwytho rhanfapiau i lawr yn rhad ac am ddim, ac edrych ar fapiau a'u prynu ar-lein. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar welliannau pellach i'r wefan, ac mae nifer y rhai sy'n ei hagor wedi cynyddu yn drawiadol ers ei lansio.

Leader of the House of Commons and Secretary of State for Wales The Right Honourable Peter Hain MP (left) meets John Pugh and Geoff Norris from Ordnance Survey's Welsh Team at the Royal Welsh Show.

Arweinydd Tŷ'r Cyffredin ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru Y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS (chwith) yn cyfarfod â John Pugh a Geoff Norris o Dîm Cymreig yr Arolwg Ordnans yn Sioe Frenhinol Cymru.




We are committed to providing Welsh consumers and businesses with a choice of authoritative, accessible and consistent geographical data. Our e-enabled Options™ retail network continues to grow, with six new outlets opening in Wales during the past year in Newport, Llandudno Junction, Bangor, Newtown, Aberystwyth, and Penarth in Cardiff. This expansion complements existing outlets in Cardiff and Swansea and supports our retail partners by growing their base markets and therefore their business. The Options portfolio includes Siteplan™, Landplan® data and Superplan® printed plots and data, widely used by architects and property professionals. A new desktop mapping service enables customers living in more remote areas of Wales to download the exact mapping they want direct from the Ordnance Survey database, without leaving their home or office.

Two new touring maps for Wales called North and Mid Wales, and South and Mid Wales, were also launched in 2003. Between them the maps, which are part of the OS Travel – Tour series, clearly highlight many visitor attractions large and small in both town and country, so helping support the growth of tourism in Wales. We also published the first bilingual guide to our entire range of leisure maps.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu dewis o ddata daearyddol awdurdodol, hygyrch a chyson i ddefnyddwyr a busnesau Cymru. Mae ein rhwydwaith adwerthu Options™, ar-lein, yn parhau i dyfu, ac agorodd chwech newydd yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yng Nghasnewydd, Cyffordd Llandudno, Bangor, Y Drenewydd, Aberystwyth, a Phenarth yng Nghaerdydd. Mae'r ehangu yma'n gyflenwol i'n mannau adwerthu yng Nghaerdydd ac Abertawe ac mae'n cefnogi ein partneriaid sy'n adwerthu trwy dyfu eu marchnadoedd sylfaenol ac felly eu busnes. Mae portffolio Options yn cynnwys Siteplan™, data Landplan® a phlotiau wedi'u hargraffu a data Superplan®. Bydd penseiri a gweithwyr proffesiynol ym maes eiddo yn defnyddio'r rhain yn helaeth. Mae gwasanaeth mapio pen bwrdd newydd yn galluogi cwsmeriaid sy'n byw yn ardaloedd mwy anghysbell Cymru i lwytho i lawr yr union fapiau maent am eu cael o gronfa ddata'r Arolwg Ordnans heb orfod gadael eu cartref neu eu swyddfa.

Hefyd, lansiwyd dau fap teithio newydd o Gymru yn 2003, sef Gogledd a Chanolbarth Cymru a De a Chanolbarth Cymru. Rhyngddynt, mae'r mapiau, sy'n rhan o gyfres OS Travel – Tour, yn dwyn sylw amlwg at lawer o atyniadau mawr a bach i ymwelwyr, yn y dref ac yng nghefn gwlad, gan helpu i gefnogi twf twristiaeth yng Nghymru. Rydym hefyd wedi cyhoeddi'r ganllaw ddwyieithog gyntaf i'n hamrediad llawn o fapiau hamdden.

Deputy Director of AGI® Sallie White (left) with then Chair of AGM Cymru Katie Medcalf and Economic Development and Transport Minister Andrew Davis AM at the launch of the GI Strategy for Wales.

Dirprwy Gyfarwyddwr AGI® Sallie White (chwith) gyda Chadeirydd AGM Cymru ar y pryd Katie Medcalf a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Andrew Davis AC yn achlysur lansio Strategaeth GI i Gymru.




## A GI strategy to deliver future success

During the past year we have continued to strengthen our relationship with AGI Cymru and we actively support its GI Strategy for Wales – launched by Economic Development and Transport Minister Andrew Davies AM (pictured above) from our stand at the 2003 Royal Welsh Show. The action plan sets out how geographical data can be best used to support economic development and we will continue to play our part in promoting the benefits of GI throughout Wales.

Ordnance Survey is an organisation that is proud to be part of Wales' past, present and future; and we look forward to continuing and developing our partnerships across the country in the coming year.

## Strategaeth GI i sicrhau llwyddiant yn y dyfodol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i gryfhau ein perthynas ag AGI Cymru ac rydym wrthi'n cefnogi ei Strategaeth GI i Gymru – wedi'i lansio gan ein Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Andrew Davies AC (llun uchod) ar ein stondin yn Sioe Frenhinol Cymru 2003. Mae'r cynllun gweithredu yn nodi sut y gellir gwneud y defnydd gorau o ddata daearyddol i gefnogi datblygiad economaidd a byddwn yn parhau i chwarae ein rhan wrth hybu buddiannau GI ledled Cymru.

Mae'r Arolwg Ordnans yn sefydliad sy'n falch o fod yn rhad o orffennol, presennol a dyfodol Cymru; ac rydym yn edrych ymlaen at barhau â'n partneriaethau, a datblygu rhai newydd, ar hyd a lled y wlad yn ystod y flwyddyn nesaf.

Vanessa V Lawrence
Director General and Chief Executive
Prif Gyfarwyddwr a Phrif Weithredwr

## Contacting us
## Cysylltu â ni

**By post / Gyda post:**
Customer Service Centre /
Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid
Ordnance Survey
Romsey Road
SOUTHAMPTON
SO16 4GU.

**By email / Gyda e-bost:**
customerservices@ordnancesurvey.co.uk

**By phone / Gyda ffôn: 08456 05 05 04**

Opening hours: Open Monday–Friday, 8.30 am–5.30 pm
After 5.30 pm out-of-hours answer phone available.

Ar agor Dydd Llun – Dydd Gwener, 8.30 yb – 5.30 yh
Ar ôl 5.30 yh mae peiriant ateb ar gael.

**By fax / Gyda ffacs: 023 8079 2615**

**Textphone / Ffôn testun: 023 8079 2906**
(Deaf and hard of hearing users only please)
(Defnyddwyr â nam ar eu clyw yn unig os gwelwch yn dda)

**Website: www.ordnancesurvey.co.uk**
**Gwefan: www.ordnancesurvey.co.uk/cymraeg**

Ordnance Survey, the OS Symbol, Land-Line, Landplan, MapZone, OS MasterMap and Superplan are registered trademarks and Options and Siteplan are trademarks of Ordnance Survey, the national mapping agency of Great Britain.
AGI is a registered trademark of the Association for Geographic Information.
Vodafone is a registered trademark of Vodafone Group plc.

Mae Ordnance Survey, Arolwg Ordnans, Symbol yr OS, Land-Line, Landplan, MapZone, OS MasterMap a Superplan yn nodau masnach cofrestredig ac mae Options a Siteplan yn nodau masnach yr Arolwg Ordnans, asiantaeth fapio genedlaethol Prydain Fawr.
Mae AGI yn nod masnach cofrestredig yr Association for Geographic Information.
Mae Vodafone yn nod masnach cofrestredig yr Vodafone Group plc.

Front cover image / Llun y clawr © Photolibrary Wales

© Crown copyright
© Hawlfraint y goron

D02493 0604

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN
BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE
IFTS accredited
achrediad IFTS